*These notes refer to the Mesur Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 (c.2)*

# MESUR FFIOEDD GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2010

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

***Adran 1 –: P#er cyffredinol i godi ffioedd am wasanaethau gofal***

3. Mae is-adrannau 1(1) a (2) yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth y caniateir codi ffi amdano godi ffi am y gwasanaeth hwnnw am y cyfryw swm ag y mae'n ystyried sy'n rhesymol (i gael disgrifiad o'r gwasanaethau y caniateir codi ffi amdanynt y mae'r Mesur yn ymwneud â hwy gweler y nodiadau ar adran 13). Ond mae adran 1(3) yn gwneud darpariaeth i'r p#er hwn fod yn ddarostyngedig i nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol y cyfeirir atynt yn is-adran (3) sef:

- darpariaethau adran 2 ar uchafswm y ffioedd;
- darpariaethau adran 3 ynghylch personau a gwasanaethau na chaniateir gosod ffioedd yngl#n â hwy;
- darpariaethau adran 8(1) (effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu); ac
- unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) (darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddi-dâl) 2003.

4. Mae is-adrannau (4) a (5) yn darparu p#er i awdurdod lleol adennill ffi am wasanaethau y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt ac yn enwedig i'w adennill fel dyled sifil mewn achos llys.